OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2326 (Cy.243)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Cylchfan Tremadog i Gylchfan Porthmadog, Man i'r De o Dremadog, Gwynedd) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011

*Gwnaed 19 Medi 2011*

*Yn dod i rym 23 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun-Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd;

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn:

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Medi 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Cylchfan Tremadog i Gylchfan Porthmadog, Man i'r De o Dremadog, Gwynedd) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn .